

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi Damweiniau / Digwyddiadau

1.0 Mawrth 2016

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r weithdrefn hon yn egluro'r broses ar gyfer adrodd ac archwilio damweiniau / digwyddiadau, ynghyd â digwyddiadau fu bron a digwydd neu rai peryglus o fewn ymgymeriadau Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae cofnodi damweiniau yn y gwaith yn ofynnol i gydymffurfio ag amryw ddeddfwriaethau gan gynnwys Deddf Nawdd Cymdeithasol 1975 fel y'i diwygiwyd, a Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR).

Cefnogir y Polisi gan adnoddau ar wefan y Cyngor.

Hanes adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Mawrth 2015	Diweddarwyd i adlewyrchu newidiadau i Reoliadau RIDDOR
1.0	Mai 2017	Dim newidiadau
1.0	Ebrill 2018	Dim newidiadau
	Rhagfyr 2020	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi hwn ym:	Ebrill 2021
Ymgwymerir â'r adolygiad gan:	Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Manylion Cysylltu:

Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (healthandsafety@anglesey.gov.uk)

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cysylltu uchod os gwelwch yn dda.

Cynnwys

1) CYFLWYNIAD

Mae'r weithdrefn hon yn egluro'r broses ar gyfer adrodd ac archwilio damweiniau / digwyddiadau, ynghyd â digwyddiadau fu bron a digwydd neu rai peryglus o fewn ymgymeriadau Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae cofnodi damweiniau yn y gwaith yn ofynnol i gydymffurfio ag amryw ddeddfwriaethau gan gynnwys Deddf Nawdd Cymdeithasol 1975 fel y'i diwygiwyd, a Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR).

Ymgymerir â gorfodi yng nghyswllt materion iechyd a diogelwch yng Nghyngor Sir Ynys Môn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

2) DIFFINIAD

Damwain: yw digwyddiad heb ei gynllunio sy'n achosi anaf i unigolion, difrod i eiddo neu gyfuniad o'r ddau.

Digwyddiad: Digwyddiad yw digwyddiad heb ei gynllunio, na ellir ei reoli, a all arwain at ddifrod yn hytrach nag anafu rhywun. Er enghraifft: mae silff wedi disgyn gan dorri'r eitemau a gedwir arno, ni chafodd unrhyw un eu hanafu ond roedd y digwyddiad wedi annog yr aelod staff sy'n gyfrifol am y llecyn hwnnw i adolygu'r modd y mae deunyddiau'n cael eu cadw'n ddiogel.

Digwyddiad fu bron a digwydd: yw digwyddiad heb ei gynllunio, nad yw'n achosi anaf neu ddifrod, ond y gallai wneud hynny. Mae enghreifftiau'n cynnwys: pethau'n disgyn yn agos i bobl neu offer trydanol yn siortio.

Anaf: Anaf yw'r niwed a ddioddefir gan rywun oherwydd damwain.

Marwolaethau: O ran marwolaethau gweithwyr neu rai nad ydynt yn weithwyr, rhaid adrodd yn eu cylch os ydynt o ganlyniad i ddamwain sy'n ymwneud â'r gwaith, gan gynnwys gweithred o drais corfforol yn erbyn gweithiwr. Nid oes angen adrodd am hunanladdiad, gan nad yw'r farwolaeth yn deillio o ddigwyddiad sy'n ymwneud â'r gwaith.

Anafiadau penodedig i weithwyr: Mae RIDDOR 2013 yn nodi rhestr o 'anafiadau penodedig' i weithwyr y mae'n rhaid adrodd yn eu cylch.

Anafiadau Dros Saith Niwrnod sy'n Adroddadwy: Anaf dros 7 niwrnod yw un sy'n golygu bod unigolyn a anafwyd i ffwrdd o'i weithle, neu nad yw'n gallu gwneud holl ystod ei ddyletswyddau arferol am fwy na saith niwrnod.

Anafiadau dros 3 diwrnod: Unrhyw ddamwain arall yn y gwaith sy'n achosi anafiadau sy'n golygu bod gweithiwr i ffwrdd o'i waith neu nad yw'n gallu gweithio am fwy na thri diwrnod yn olynol (heb gyfrif diwrnod y ddamwain ond yn cynnwys unrhyw benwythnosau neu ddiwrnodau gorffwys eraill). Nid oes angen adrodd am anafiadau dros dri diwrnod, onid yw'r cyfnod nad yw rhywun yn gallu gweithio yn mynd ymlaen dros saith niwrnod.

Clefyd: Clefyd yw salwch neu ddatblygiad symptomau a achosir gan ddod i gysylltiad â chyfrwng neu weithgaredd. Er enghraifft, dirgryniad llaw a braich neu asthma galwedigaethol (asthma a achosir gan weithgaredd yn y gwaith). Ceir manylion clefydau rhestredig y mae angen adrodd yn eu cylch yn RIDDOR 2013.

Digwyddiad Peryglus: Mae Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 yn diffinio digwyddiadau penodol fel rhai y mae'n rhaid adrodd arnynt i'r HSE. Enghraifft fyddai bod rhan o offer codi sy'n cynnal pwysau yn methu. Dylid adrodd ar bob damwain a digwyddiad er mwyn i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol asesu p'un a ddylid diffinio'r ddamwain / digwyddiad o fewn y categori hwn.

3) **DYLETSWYDDAU O DAN Y RHEOLIADAU**

Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1975 yn gofyn i gyflogwyr gadw manylion anafiadau personol mewn perthynas â gweithgareddau yn y gwaith.

Mae RIDDOR yn gofyn am adrodd rhai damweiniau, digwyddiadau, salwch a digwyddiadau peryglus i'r HSE.

Mae'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i weithwyr gynnal asesiadau risg a'u hadolygu fel y bo angen. Pe digwydd damwain, mae posibilrwydd nad yw'r asesiad risg yn ddigonol a bod angen ei adolygu.

Mae'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i gyflogwyr fonitro gweithgareddau yn y gwaith, byddai hyn yn cynnwys monitro damweiniau.

Mae dogfen ganllawiau'r HSE, HSG65 'Rheoli Iechyd a Diogelwch yn Llwyddiannus' yn cynnwys elfen sy'n gofyn am adolygu'r prosesau yn y gwaith. Byddai hyn yn cynnwys cymharu â'r data ar gyfer damweiniau o ran y prosesau yn y gwaith.

Yn achos damwain neu ddigwyddiad sy'n achosi damwain, bydd Cyngor Sir Ynys Môn, yn unol â'i Bolisi Cymorth Cyntaf, y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (fel y'i diwygiwyd), yn sicrhau bod triniaeth Cymorth Cyntaf yn cael ei rhoi ynghyd â llunio adroddiad(au) ymchwilio priodol ar y ddamwain.

4) **Y BROSES AR GYFER ADRODD AM DDAMWAIN YN Y GWAITH**

System Weithio

Mae'n rhaid adrodd am bob damwain neu ddigwyddiadau fu bron a digwydd, pa mor fychan bynnag. Er mwyn cyflawni hyn, dylid mabwysiadu'r canlynol:

- Cael triniaeth ar gyfer yr anaf gan swyddog cymorth cyntaf neu unigolyn penodedig arall, fel y bo'n briodol.
- Os oes angen, gwneud y lle'n ddiogel ar ôl y digwyddiad (e.e. drwy ddefnyddio rhwystrau, arwyddion rhybuddio), i ddiogelu gweithwyr eraill yn y cyffiniau (ac eithrio lle bo'r ddamwain yn arwain at anaf mawr, ac felly ni ddylid cyffwrdd y safle hyd nes y cynghorir fel arall gan yr awdurdod gorfodi).
- Nodi manylion yn y llyfr damweiniau / ar y ffurflen ADIR.
- Rhoi gwybod i reolwr yr unigolyn a anafwyd (neu unigolyn cyfrifol) am y digwyddiad. Bydd yr unigolyn hwn yn dal manylion damweiniau / digwyddiadau ar lefel leol.
- Rhoi gwybod i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol cyn gynted ag y bo modd, gyda manylion am y damweiniau / digwyddiad. Dylid rhoi gwybod i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol am ganfyddiadau ac argymhellion yr ymchwiliad a gynhaliwyd ar lefel leol.
- Adolygu asesiadau risg presennol yn y gweithle ynghyd â systemau gweithio diogel yng ngolau canlyniadau'r ymchwiliad i'r ddamwain.

Y camau pwysicaf yw:

- Sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn cael eu hadrodd mor fuan ag y bo modd, yn unol â gweithdrefnau sefydledig;
- Cael gwared â pheryglon gweddilliol a all fod yn beryglus i bobl eraill yn y lleoliad, os ydyw'n ddiogel i wneud hynny;
- Hysbysu rheolwyr am anallu i weithio o ganlyniad i anaf a gafwyd yn ystod gweithgaredd yn y gwaith;
- Adolygu systemau gweithio presennol i atal damwain o'r fath rhag digwydd eto.

5) **CANLLAWIAU AR GYFER CWBLHAU FFURFLEN ADRODD AM DDAMWEINIAU / DIGWYDDIADAU (ADIR)**

Pryd i gwblhau Ffurflen ADIR

Rhaid cwblhau ffurflen ddamweiniau/digwyddiadau yn achos bod rhywun wedi cael ei anafu, bod rhywbeth wedi'i ddifrodi, ei ddwyn neu ei golli wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau i'r Cyngor neu ar ei ran, neu os yw'r digwyddiad yn deillio o ymgymeriadau'r Cyngor. Rhaid cwblhau'r ffurflen hon p'un a gafwyd anaf ai peidio.

Pwy sy'n cwblhau'r Ffurflen ADIR

Gall aelodau staff gwblhau'r ffurflen, ond mae'n well os yw Rheolwyr Llinell yn gwneud hynny. Os yw aelod staff yn cwblhau ffurflen ADIR, mae'n hanfodol bod y Rheolwr Llinell yn cael copi i'w gadw ar gyfer ei gofnodion ei hun.

Beth sy'n digwydd i'r ffurflen ADIR ar ôl ei chwblhau

Yn dilyn ymchwiliad cychwynnol gan y Rheolwr Llinell, rhaid cyflwyno'r ffurflen i'r Tîm Iechyd a Diogelwch. Dylid gwneud hyn mor fuan ag y bo modd ond yn ddim hwyrach na 7 niwrnod ar ôl i'r Ddamwain / Digwyddiad ddigwydd, drwy'r e-bost neu'r post. Os bydd yr ymchwiliad yn cymryd mwy na 7 niwrnod i'w gwblhau, dylid anfon y ffurflen mor fuan ag y bo modd, gan anfon gwybodaeth ychwanegol pan fydd ar gael. Rhaid i staff fod yn ymwybodol bod y 7 niwrnod yn golygu diwrnodau gwirioneddol ac nid diwrnodau gwaith. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i Gyngor Sir Ynys Môn gyflawni ei ofynion cyfreithiol mewn perthynas ag adrodd am ddamweiniau / digwyddiadau i'r HSE o fewn cyfnodau amser penodedig.

Ar ôl derbyn ADIR, bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn asesu'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen o ran difrifoldeb achos y digwyddiad a'i ganlyniad. Cynhelir asesiad o wybodaeth yr ymchwiliad ar y ffurflen ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd i leihau'r perygl y bydd yn digwydd eto. Bydd copi'n cael ei anfon yn awtomatig i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i'r Rheolwr Risg ac Yswiriant.

Bydd pob ADIR a dderbynnir yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata gorfforaethol fewnol o ddamweiniau / digwyddiadau. Bydd yr Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn adrodd am ddamweiniau / digwyddiadau a ddosbarthir o dan RIDDOR (y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013) i'r HSE yn unol â'r rheoliadau. Fodd bynnag, o ran marwolaethau sy'n digwydd y tu allan i oriau gwaith neu yn ystod y penwythnos neu gyfnodau gwyliau, yr uwch reolwr fydd yn gyfrifol am adrodd i'r HSE. Yn ogystal â hyn, rhaid adrodd am farwolaethau i'r uwch reolwr a'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol o fewn 1 diwrnod gwaith.

Sut i gwblhau ffurflen ADIR

Mae'n bwysig cwblhau **POB** adran, gan nodi 'Amherthnasol' lle bo angen. Mae angen i'r wybodaeth fod yn gryno ac yn hawdd i'w deall.

Fesul Adran

Adran A – Manylion y Ddamwain/Digwyddiad

Yn lle wnaeth y Ddamwain/Digwyddiad ddigwydd? - Rhowch yr union leoliad os yn bosibl h.y. Ysgol Bodedern, y Ffreutur. Dylid nodi'r dyddiad ac amser y digwyddiad neu bryd y'i darganfuwyd os nad yw'r manylion yn hysbys (e.e. darganfuwyd bod y lle wedi gorlifo ar ôl y penwythnos). Mae angen disgrifiad byr o beth sydd wedi digwydd, gan roi cymaint o fanylion ag y bo modd, nodwch hefyd beth a wnaed i helpu'r broblem neu i'w datrys.

Adran B – (ynglŷn â'r unigolyn a anafwyd/a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad)

Mae'r adran hon yn ddigon eglur, gofalgwch eich bod yn nodi statws yr unigolyn yn glir h.y. Gweithiwr, Defnyddiwr Gwasanaeth.

Adran C – (ynglŷn â'r anaf, os oes un)

Yn yr adran hon, bydd angen manylion yr anaf a'r rhan o'r corff a effeithiwyd. Gofalgwch eich bod yn ateb bob cwestiwn yn yr adran hon. Bydd angen nodi pwy fu'n dyst i'r Ddamwain / Digwyddiad a chofnodi eu manylion gan efallai y bydd angen cysylltu â hwy'n ddiweddarach.

Adran D – Eiddo wedi ei ddwyn neu ei golli

Dylid cwblhau'r adran hon pan fo eitemau / eiddo wedi'u difrodi, eu colli neu eu dwyn. Mae angen amcangyfrif gwerth yr eitem ar adeg ei cholli neu ei dwyn, neu os oes angen y gost ar gyfer gwaith atgyweirio. Os hysbyswyd yr Heddlu, nodwch gyfeirnod y drosedd os gwelwch yn dda.

Adran E – Datganiad

Dylid cwblhau'r adran hon gan y Rheolwr Llinell neu unigolyn sy'n adrodd am y Ddamwain / Digwyddiad, gan nodi ei enw, ei swydd a'i rif cyswllt.

Mae'r rhan olaf o'r datganiad yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut i ddychwelyd ffurflen ADIR ar ôl ei chwblhau.

Adran F – Ymchwiliad

Mae'r adran hon At Ddefnydd Swyddfa, a bydd yn cael ei chwblhau gan yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Gweinyddwr Diogelwch, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen a gwybodaeth ddilynol.

6) CYFRIFOLDEBAU

Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Un

Y Prif Swyddog Gweithredol yw'r unigolyn sydd yn bennaf gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo dyletswydd i'r Prif Swyddogion Gweithredol Cynorthwyol gyflawni eu dyletswyddau fel y nodir o fewn y weithdrefn hon.

Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Dau

Dylai Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod gan eu hadain neu adran adnoddau priodol er mwyn cydymffurfio â'r weithdrefn hon. Byddai adnoddau'n cynnwys staff, amser a chyllid.

Rhaid i bob Rheolwr Lefel Dau sicrhau bod Rheolwyr Llinell yn cael gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant digonol. Darperir gwybodaeth a hyfforddiant digonol i bob gweithiwr ynghylch adrodd am ddamweiniau a lle i gael ffurflenni ADIR a sut i'w cwblhau.

Rheolwr Iechyd a Diogelwch Lefel Tri

Rhaid i reolwyr lefel tri sicrhau bod pob gweithiwr wedi cael hyfforddiant digonol i gyflawni ei waith yn ddiogel a'i fod wedi derbyn gwybodaeth am arferion gweithio diogel ac atal damweiniau.

Rhaid i reolwyr adolygu asesiadau risg ar ôl i ddamwain ddigwydd a sicrhau eu bod yn pennu trefn y digwyddiadau a arweiniodd at y ddamwain. Dylid cynnal ymchwiliad i'r ddamwain er mwyn pennu'r ffactorau dynol, sefydliadol neu o ran swyddi a oedd wedi arwain at y gweithredoedd neu'r amodau annïogel a oedd yn debygol o fod wedi achosi'r ddamwain.

Yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Dylai Ymgynghorydd(wyr) Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ddarparu cyngor ar y weithdrefn hon a'r dogfennau sy'n ei chefnogi. Dylid mynd ar drywydd adroddiadau'r ymchwiliad a chynnal ymchwiliad ar ddigwyddiadau / damweiniau mwy difrifol. Bydd Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cysylltu â'r HSE ac yn darparu gwybodaeth am ddamweiniau / digwyddiadau fel y bo angen.

Gweithwyr

Cyfrifoldeb gweithwyr unigol yw adrodd am ddamweiniau / digwyddiadau i'w rheolwr llinell mor fuan ag y bo modd. Yn y mwyafrif o achosion, bydd gweithwyr unigol yn cwblhau eu ffurflen eu hunain i adrodd am ddamwain, ond mae'n bwysig anfon y ffurflen hon ymlaen i'r adran Iechyd a Diogelwch.

RHAGOR O WYBODAETH

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar
01248 752820